Alessia Jones	Tîm Cyfathrebu'r ADN
Lucy Kerr	Tîm Cyfathrebu'r ADN
Ann Llwyd	Cyfieithu - Cymen
Sydna Roberts	Cofnodion – Cymen
Janine Claber	Marick Communications
Ruth Corney	Marick Communications

Ymddiheuriadau:

Cyng Ken Hughes	Ward Talybolion Cyngor Môn
Cyng John Griffiths	Cyngor Cymuned Llaneilian
Cyng R O Jones	Cyngor Tref Amlwch

1 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 2.00 pm a nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb fel y gwelir uchod. Gobeithio y bydd y sefyllfa o ran Covid-19 yn gwella digon i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal yn Neuadd y Pentref yng Nghemaes. Cyflwynodd aelodau staff Marick Communications, a roddodd gyflwyniad i'r aelodau ar gynnal y cyfarfod drwy Zoom.

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 25 Medi 2020

Roedd y cofnodion wedi'u dosbarthu ymlaen llaw. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Diwethaf

Dim

4 Adroddiad Cadeirydd y GRhS

Cafwyd trosolwg ar y gweithgarwch a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf gan y Cadeirydd, a nododd fod y cyfarfodydd wedi bod yn rhai rhithiol:-

- Ni fydd adolygiad arfaethedig gan yr ONR ar rolau a chyfrifoldebau'r GRhS yn cael ei gynnal; fodd bynnag, mae'r ADN yn bwriadu cynnal arolwg cyn hir.
- Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y GRhS wedi cael cyfarfodydd rhithiol â'r ADN.
- Mae'r ADN yn gweithio tuag at ddatblygu i fod yn un corff corfforaethol.

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Cyflwynodd Stuart Law ei adroddiad, ac roedd copïau ohono wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod. Rhodir crynodeb o'r adroddiad isod:-

Covid-19

- Gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol wrth symud i bob rhan gymunedol o'r safle ers 4 Tachwedd.
- Roedd y llond dwrn o achosion positif ymhlith y gweithlu wedi'u trosglwyddo yn y gymuned ac nid ar y safle.
- Bydd treialon profion llif unffordd yn cael eu cyflwyno ym mhob safle o dan raglen brofi'r BEIS sy'n cynnal seilwaith cenedlaethol critigol. Bwriad y profion wythnosol hyn yw canfod pobl sydd wedi'i heintio â Covid-19 ond heb ddangos symptomau ac nad ydynt yn felly'n ymwybodol eu bod wedi'u heintio. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio i helpu â'r rhaglen a fydd yn dechrau ym mis Chwefror.

Cynnydd ar y safle

- Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig ym mis Medi ar ôl cytuno ar gontract â Scottish Power Energy Networks ar gyfer y cysylltiad troshaen trydanol. Bydd hyn yn newid y ffordd mae pŵer trydanol yn cael ei ddsbarthu i'r safle a bydd yn alluogwr allweddol i helpu gwaith datgomisiynu yn y dyfodol, fel dymchwel y neuadd dyrbin.
- Cafodd y gwastraff ymbelydrol cyntaf ei gludo o'r safle ers yr egwyl weithrediadol ym mis Medi. Roedd yn cynnwys ychydig llai na phum tunnell o wastraff metelaidd a gynhyrchwyd yn sgil nifer o weithgareddau cynnal a chadw, prosiectau clirio gwastraff a gwaith adennill cell storfa sych pedwar. Anfonwyd y gwastraff at Cyclife i gael ei ailgylchu.
- Mae rhannau o bibell dŵr môr segur a ddefnyddiwyd gyntaf yn 2008 fel cyflenwad wrth gefn yn ystod y gwaith o newid rhan o'r prif gylch oeri dŵr môr wedi cael eu tynnu gyda bachwr mecanyddol a chyfarpar llosgi. Anfonwyd y llwyth dur 43.5 tunnell at gyflenwyr yng Ngogledd Cymru Lelo Metals i gael ei ailgylchu.

- Rhoddwyd amserlen cynnal a chadw pedair rhan ar waith i gydymffurfio â'r amodau ym mis Hydref sy'n golygu bod Wylfa yn cyd-fynd â'r safleoedd Magnox eraill ac mae wedi cael gwared ar filoedd o weithgareddau nad oes eu hangen bellach.
- Mae'r tîm gweithrediadau gwastraff wedi cwblhau'n ddiogel y dasg o gasglu 69,000 litr o elifiant a oedd yn deillio o ddraeniau llawr adeilad y llosgwr gweithredol a draen sgrwbiwr golchi pibell wacau'r llosgwr.
- Mae'r prosiect nodweddu gwastraff canolraddol wedi gwneud cynnydd da gyda dros 200 o samplau wedi'u cymryd o'r system canfod can byrstio a chwblhawyd samplau yn y system nwy ategol. Mae'r rhain wedi'u pacio a'u hanfon i labordy i gael eu dadansoddi. Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y cyfleuster trafod fflasgiau tanwydd wedi'u dihysbyddu.
- Mae'r olew wedi'u ddraenio o 16 ciwbicl cyffordd yr uned oeri ym mhob adweithydd, ac maent wedi'u glanhau a'u symud i gael eu gwaredu fel gwastraff peryglus oddi ar y safle.
- Mae'r gwaith CO2 wedi'i ynysu yn barod ar gyfer ei ddymchwil.
- Cynhaliwyd yr adolygiad Amgylchedd, Diogelwch, Diogeled ac Ansawdd cyntaf am ddwy flynedd ym mis Tachwedd, ac mi oedd yn llwyddiant. Roedd Gweithrediaeth Magnox yn bresennol a nodwyd: cefnogaeth gref i'r trefniadau Covid-19 a pherfformiad diogelwch TRIR/DACR neilltuol. Roedd y Weithrediaeth yn hapus â'r ffordd y cafodd y Swyddfa Adeiladu ei sefydlu a'i rhedeg, bod rheolaeth dda dros gyfarpar codi a'r prosiect optimeiddio gwaith cynnal a chadw.
- Cafwyd ymweliadau rhithiol llwyddiannus iawn â safleoedd Trawsfynydd a Wylfa yn ystod mis Rhagfyr gyda Phrif Swyddog Gweithredol yr ADN David Peattie, Dr Ros Rivaz, Cadeirydd yr ADN a Phrif Swyddog Gweithredol Magnox Gwen Parry Jones, MBE yn bresennol.
- O 1 Chwefror 2021 ymlaen, bydd y gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau ar gyfer safleoedd Magnox yn newid o Interserve i Mitie. Mi hoffwn ddiolch i Interserve am eu holl flynyddoedd o wasanaeth yn Wylfa a Maentwrog.

Perfformiad Diogelwch

Cyfanswm y gyfradd digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00 Cyfradd achosion dyddiau i ffwrdd (DACR): 0.00 Nifer y dyddiau ers damwain colli amser: 926 (27.01.21)

Pobl

Ar hyn o bryd mae 155 o weithwyr yn Wylfa. Mae staff Swyddfa Cymorth Magnox sydd â desg ar y safle'n dal i weithio o gartref ar hyn o bryd. Roedd brechiadau fflw, a weinyddwyd gan BUPA, ar gael i'r gweithlu ym mis Tachwedd.

Iechyd Meddwl

Mae hyn yn flaenoriaeth ac yn rhan o'r strategaeth sefydliadol. Mae'r cwmni'n cymryd rhan eleni ym mynegai iechyd meddwl gweithleoedd Mind. Bydd y gweithlu'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg llesiant, a bydd canlyniadau hwnnw'n dangos pa mor llwyddiannus yw'r polisiau, y gweithdrefnau a chynlluniau iechyd meddwl fel swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl a sut y gellid eu gwella.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Law am ei adroddiad a hefyd am y cyfraniad o £25K a gafwyd i hwyluso cymorth cymunedol ar gyfer Covid-19.

Sesiwn Holi ac Ateb

Roedd y Cyng Derek Owen, fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbadrig, am ganmol yr agwedd ar ddiogelwch a arweiniodd at 926 diwrnod heb ddamwain a diolchodd i Magnox am y gefnogaeth i'r gymuned yn ystod y cyfnod hwn.

Cytunodd y Cadeirydd y byddai Eitem 11 ar yr Agenda'n cael ei thrafod ar yr adeg hon i hwyluso ymrwymadau gwaith eraill y cyflwynwyr. Croesawodd Mr Tudur Jones o Gyngor Sir Ynys Môn.

11 Cynllun Adfywio Gogledd Môn – diweddariad

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Tudur Jones ar y cynnydd a wnaed ar Gynllun Adfywio Gogledd Môn.

Tynnodd sylw'n benodol at y canlynol:-

Trosolwg Cyfredol o Ogledd Môn

- Poblogaeth – 13,474
- 60% siaradwyr Cymraeg
- Amlwch – 3,789
- Poblogaeth sy'n heneiddio (43.4% yn 45 i 74 oed)
- 71% yn economaidd weithredol
- 66% mewn gwaith (75% ar gyfer Môn)
- Incwm cyfartalog <£25,000 y flwyddyn
- Mae'r rhan fwyaf o'r arfordir wedi'i ddynodi fel AHNE

Y Dirywiad Economaidd

Nododd fod nifer o gyflogwyr pwysig wedi'u colli yn ystod y blynyddoedd diwethaf – Magnox; Rehau; Great Lakes a Horizon.

Yr Effaith Economaidd

- 350+ o weithwyr yn byw yn yr ardal
- Effaith ar wariant y gadwyn gyflenwi leol
- Gweithlu medrus wedi'i golli
- Prinder rolau lefel mynediad
- Yr effaith ar gymunedau a phobl ifanc
- Covid-19
- Hitachi/ Horizon wedi tynnu'n ôl yn ffurfiol o'r broses DCO

Dros £45m o GVA blynyddol wedi'i golli

Cynllun Adfywio Gogledd Môn

Cafwyd crynodeb gan TJ o'r camau a gymerwyd gyda'r Cynllun Adfywio -

- Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2018
- Cafwyd 700+ o ymatebion
- Cynghorau Sir a Medrwn Môn yn cymryd rhan yn Llunio Lleoedd
- Ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref
- Trafodaethau wedi'u cynnal â thirfeddianwyr
- Adroddiadau wedi'u comisiynu i gwmpasu'r effaith economaidd

Trosolwg Blwyddyn 1 yr ADN

Gwnaed y canlynol o fewn y gyllideb o £110,000 a ddyrannwyd i gyflawni ar y blaenoriaethau a nodwyd:

- Fframwaith Prentisiaethau
- Papur Cyfiawnhau Parthau Menter

- Astudiaeth Strydlun
- Astudiaeth Adfywio Porthladd Amlwch
- Cynllun Gweithredu Cyrchfan Gogledd Môn
- Cronfa Grantiau Gogledd Môn

ADN – Cronfa Cymorth Grant

Cyfeiriodd TJ hefyd at y cymorth grant ychwanegol uchod

- £50,000 wedi'i ddyrannu
- Uchafswm o £5,000 i bob ymgeisydd (80%)
- 11 o fusnesau a grwpiau cymunedol wedi cael cymorth
 - 39 o swyddi wedi'u creu/diogelu
 - 30 o gyfleoedd hyfforddi
 - 96 o gyfleoedd i wirfoddoli
- Bwriad i efelychu a chynyddu'r gwerthoedd ym Mlwyddyn 2

Cymorth Grant Covid Ychwanegol gan yr ADN

Sicrhawyd grant ychwanegol o £25,000 i helpu'r gymuned yn ystod y pandemig COVID 19, ac fe'i dyrannwyd fel a ganlyn:-

- Pecynnau gweithgarwch i 297 o blant
- Dau argraffydd 3D i Ysgol Syr Thomas Jones ar gyfer PPE
- Cefnogaeth i Fanc Bwyd Amlwch a phrosiect dosbarthu bwyd 'Neges' (Menter Môn)

Cynigion yr ADN ar gyfer Blwyddyn 2

Ar gyfer Blwyddyn 2 mae cais wedi'i gyflwyno am £192,000. Mae ystod y gwaith a'r gweithgarwch yn cynnwys:

- Grantiau Gogledd Môn 2
- Strategaeth Arwyddion Integredig a Data Ymwelwyr Amser Real
- Peilot LoRaWAN a'r Rhyngwyd Pethau
- Parcdir Trefol a Gwella Tir y Cyhoedd (Porth Amlwch)
- Diweddarau a Gwella Gwefan Croeso Môn
- Lleoliad Gogleddol

Diolchodd Virginia Crosbie AS Ynys Môn i TJ am ei ddiweddariad. Cyfeiriodd at y newyddion diweddar ynghylch Wylfa Newydd gan nodi ei bod yn hynod siomedig o gofio'r gwaith a oedd wedi'i wneud eisoes gan Bartneriaeth Gogledd Môn. Cyfeiriodd at Gynllun 10 Pwynt y Prif Weinidog a'r Papur Gwyn ar Ynni a oedd yn pwysleisio'r ymrwymiad penodol i ynni niwclear ac i weithio ar ran preswylwyr Ynys Môn i sicrhau swyddi gwerth chweil. O ran Wylfa Newydd, dywedodd fod Kwasi Kwarteng, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn chwilio am ddatblygwr arall ar gyfer y cynllun ac mae wedi cytuno i gael cyfarfod Zoom â'r GRhS.

Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd y bydd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned yn rhan o'r trafodaethau Zoom arfaethedig â'r Ysgrifennydd Gwladol. Gofynnodd hefyd a oedd Llywodraeth y DU wedi ystyried bod yr ADN yn prynu'r safle fel ceidwaid. Cadarnhaodd VC fod Anne Marie Trevelyan AS sydd wedi'i phenodi fel y Gweinidog Ynni, Busnes a Thwf Glân yn gweithio â Kwasi Kwarteng ar ddatblygiadau'r dyfodol.

Diolchodd y Cyng Llinos Medi i TJ am gyflwyniad gwych a dywedodd fod y 700 ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad yn galonogol dros ben. Roedd yn codi calon hefyd i ddeall bod gwaith Porthladd Rhydd Ynys Môn ac Adfer eich Rheilffyrdd a oedd wedi'i wneud gan staff Ynys Môn yn cael ei gefnogi gan AS yr Ynys. Roedd manylion am y cymorth grant 2 flynedd arfaethedig hefyd yn galonogol i ddiogelu swyddi. Dywedodd ei bod yn trafod materion yn ymwneud â Gogledd Môn â Llywodraeth Cymru ar bob cyfle posibl.

Nododd y Cadeirydd fod colled o £45m yn GVA Gogledd Môn yn un enfawr ac mai yn San Steffan mae'r datrysiadau. Roedd am ddiolch hefyd i Ifer Gwyn, Horizon am yr holl waith mae wedi'i wneud yn Wylfa ac estynnodd wahoddiad iddo i siarad.

Roedd Ifer Gwyn yn gobeithio nad hwn fyddai ei gyfarfod olaf o'r GRhS; fodd bynnag, diolchodd i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig. Roedd yn credu y byddai'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn helpu i sicrhau'r datrysiad gorau i Ogledd Môn.

Sesiwn Holi ac Ateb

Diolchodd y Cyng Jac Jones, Cyngor Cymuned Mechell i TJ am ei gyflwyniad, a nododd y pethau ymarferol sy'n cael eu cyflawni ac a oedd i'w croesawu, ac roedd yn edrych ymlaen, fel Cyngor Cymuned Lleol, at gydweithio'n agos â Chyngor Ynys Môn ar ddatblygiadau'r dyfodol.

Ymholiad a gafwyd drwy gyfleuster sgwrsio Zoom

Gwefan Croeso Môn – sut ellir dylanwadu ar hynny'n lleol? Cadarnhaodd TJ fod rhagor o waith yn yr arfaeth ar gyfer y wefan yn y flwyddyn ariannol nesaf; fodd bynnag, roedd yn croesawu unrhyw awgrymiadau lleol a gwahoddodd aelodau i gysylltu'n uniongyrchol ag ef.

Roedd y Cyng Dafydd Griffiths, Cyngor Cymuned Llanelian hefyd am ddiolch i TJ am ei gyflwyniad ac roedd yn edrych ymlaen at gydweithio â Chyngor Ynys Môn.

Holodd y Cyng Derek Owen, Cyngor Cymuned Llanbadrig VC am ymrwymiad Llywodraeth y DU i allyriadau dim carbon erbyn 2050 a'i hymrwymiad i gerbydau trydan erbyn 2030 ac a oedd modd cyflawni hyn heb agor safleoedd niwclear newydd. Roedd VC yn cydnabod bod y rhain yn faterion yr oedd angen eu hystyried a'u trafod ymhellach.

6. Trefniadau'r Safle mewn Argyfwng

Cyflwynodd Mr Stuart Law adroddiad byr ar drefniadau'r Safle mewn Argyfwng. Nododd fod y newid i amseroedd gweithio yn galluogi hyblygrwydd i gyd-fynd â gofynion Covid-19 drwy gyflwyno presenoldeb staff am yn ail. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau bod cynllun argyfwng ar waith i sicrhau y gellid delio ag unrhyw broblemau heb eu rhagweld ar y cyd â'r gwasanaethau brys.

Nododd yr aelodau'r trefniadau hyn a oedd wedi'u hadolygu.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

7 Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Croesawyd Mr J McNamara a Mr J Jenkin i'r cyfarfod. Cafwyd crynodeb byr gan JJ o'r adroddiad a oedd wedi'i ddisbarthu ymlaen llaw i'r aelodau.

Covid-19

- Mae Grŵp yr ADN yn parhau i ymateb i effeithiau'r pandemig Covid
- Mae cynnydd da wedi'i wneud i aildechrau gweithrediadau'r safle ar draws Grŵp yr ADN ers y cyfyngiadau symud cyntaf
- Bu gostyngiad ym mhresenoldeb staff mewn rhai safleoedd (e.e. Sellafield)
- Mae staff Canolfan Gorfforaethol yr ADN yn parhau i weithio o gartref heblaw am fynediad hanfodol i'r swyddfa
- Mae iechyd, diogelwch a llesiant staff yn parhau'n brif flaenoriaeth.

Penodiadau Diweddar

- Cadeirydd Newydd, Ros Rivaz, dechreuodd â'r ADN ar 1 Medi 2020.
- Penodwyd Francis Livens i Fwrdd yr ADN ac mae ganddo dros 35 mlynedd o brofiad mewn ymchwil niwclear
- Penodwyd Mark Rouse fel Rheolwr Gyfarwyddwr Dounreay Site Restoration Ltd ers 1 Ebrill
- Penodwyd Martin Walkingshaw fel Darpar Brif Swyddog Gweithredol Storfa Gwastraff Lefel Isel (LLWR)

Cynllun Busnes Drafft 2021-24

- Cyhoeddwyd cynllun busnes drafft ar 8 Rhagfyr 2020 ac a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos o hyd
- Mae'n cyflwyno cynlluniau gwariant Grŵp yr ADN am flynyddoedd ariannol 2021 – 2024
- Mae'n ymgorffori canlyniad setliad Adolygiad o Wariant 2020
- Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 2 Chwefror 2021
- Cyflwynwyd y drafft terfynol i Weinidogion y DU a'r Alban ar gyfer eu cymeradwyaeth gyda dyddiad cyhoeddi ar gyfer 31.3.21

Datrysiadau Trafnidiaeth Niwclear

- Bydd isadran drafndiaeth sengl yn dwyn ynghyd arbenigeddau a galluoedd trafndiaeth pob rhan o Grŵp yr ADN
- Bydd yn dechrau gweithredu fel un sefydliad ar 1 Chwefror cyn y lansiad llawn ym mis Ebrill.
- Cludo gweddillion tanwydd, deunyddiau niwclear, dychwelyd cynnyrch ailbroesu i gwsmeriaid tramor, pacio a chymorth trwyddedi i Grŵp yr ADN
- Y bwriad yw creu un isadran gwastraff (LLWR a RWM).

Gweithgorau GDF

- Mae Radioactive Waste Management (RWM) wedi croesawu ffurfio'r ddau Weithgor cyntaf yn Copeland ac Allerdale
- Camau pwysig yn y rhaglen Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF)
- Bydd Gweithgorau'n agor trafodaethau lleol ac yn canfod ffeithiau am leoliad posibl GDF yn Copeland ac Allerdale
- Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd GDF yn cael ei leoli yn Cumbria ac nid yw'n rhwystro cymunedau eraill rhag sefydlu Gweithgorau.

Strategaeth Ynni Drafft

- Mae'r Strategaeth yn ofyniad yn y Ddeddf Ynni a rhaid ei hadolygu o leiaf bob 5 mlynedd
- Cyhoeddwyd y Strategaeth gyfredol yn 2016
- Cyhoeddwyd Strategaeth Ddrafft 4 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Awst ac 8 Tachwedd
- Cyhoeddwyd y Strategaeth derfynol wedi'i chymeradwyo ar 31 Mawrth 2021.

Ymgynghoriad a'r camau nesaf

- Cafwyd tua 73 set o sylwadau gan ystod o randdeiliaid.
- Rydym wedi ystyried y sylwadau i gyd yn ofalus a, phan yn bosibl, wedi eu hymgorffori yn y drafft terfynol
- Mae'r drafft terfynol wedi'i gyflwyno i Weinidogion y DU a'r Alban i gael cymeradwyaeth

- Bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi cyn 31 Mawrth 2021 gyda dogfen sy'n cynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nododd JJ hefyd fod Cadeirydd Sellafield wedi'i benodi'n ddiweddar a bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu ag aelodau'r GRhS drwy'r Cadeirydd.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni chafwyd dim cwestiynau

8 Diweddariad gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear

Croesawyd Mr Ian Dallas i'r cyfarfod a chyflwynodd ei adroddiad. Mae crynodeb o'r adroddiad fel a ganlyn:-

- Roedd arolygwyr yr ONR ar safle Wylfa ar y dyddiadau canlynol: 28 Gorffennaf 2020; 25 i 28 Awst 2020; 16 Medi 2020; 24 Medi 2020; 5 Hydref 2020; ac 16 i 19 Tachwedd 2020
- Cynhaliodd yr ONR arolygon yn Wylfa, ac ar y cyfan, barnwyd fod y trefniadau sy'n cael eu gwneud a'u gweithredu gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch a diogeled yn ddigonol yn y manau a arolygwyd
- Drwy gydol y cyfnod adrodd, gan gynnwys cyfnod y cyfyngiadau symud cenedlaethol, mae arolygydd diogelwch enwebedig yr ONR wedi cael cyfarfodydd wythnosol dros y ffôn â chynrychiolydd tîm arweinyddiaeth Wylfa er mwyn bod yn gyfarwydd â'r sefyllfa o ran materion yn ymwneud â diogelwch niwclear, diogeled, mesurau diogelu, trafniadaeth a chonfensiynol ac iechyd a diogelwch. Ni ddaeth dim problemau arwyddocaol i'r amlwg i'r ONR ac felly, ers mis Awst, mae amllder y sgysiau ffôn hyn yn awr bob pythefnos. Mae hyn yn awr yn cynnwys peth rhyngweithio drwy alwadau cynadleddau o bell (fel sy'n briodol) i leihau presenoldeb ar y safle.
- Nid yw Wylfa wedi adrodd am ddim digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelwch i'r ONR yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
- Mae'r safle wedi cwblhau gwaith i sicrhau bod modd i bersonél ddychwelyd i'r safle mewn ffordd ddiogel. Mae trefniadau parodrwydd am argyfwng yn cael eu cynnal drwy dîm ar ddyletswydd yn unol â threfniadau argyfwng a gymeradwywyd gan yr ONR.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

9 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Croesawyd Iwan Williams, CNC a Rona Arckle, Asiantaeth yr Amgylchedd i'r cyfarfod. Cyflwynodd IW ei hun fel Swyddog Gweithredol Arweiniol CNC ar gyfer safleoedd Wylfa a Thrawsfynydd. Eglurodd fod CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymgymryd â rôl ar y cyd o ran cyfrifoldebau rheoleiddio.

Aeth RA ymlaen i grynhoi'r adroddiad a oedd wedi'i ddisbarthu ymlaen llaw i'r aelodau. Nododd y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod ers Medi 2020.
- Ni fu ymweliad personol â Wylfa ers ailafael yn y gwaith yn dilyn yr egwyl weithredol y llynedd, ond bu galwadau wythnosol rheolaidd i drafod statws y safle ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac mae nifer o arolygiadau o bell wedi'u cynnal.
- Disgwylir y bydd y cyfarpar yn cael ei symud o'r holl adeiladau yn Wylfa heblaw am Adeilad Cyfarpar yr Adweithydd (REB) cyn eu dymchwel i lefel slab cyn i'r safle symud ymlaen i'r cam Gofal a Chynnal a Chadw. Disgwylir y bydd y gwaith ar gael gwared ar yr adeiladau gweinyddol ac ategol yn dechrau yn 2021 a bydd hyn yn digwydd mewn pedwar cam yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Mae prosiect arall i glirio cyfarpar nad yw wedi'i sefydlogi o'r REB ac i gwblhau gwaith

glanhau ôl-weithredol (POCO) ar y cyfleusterau a oedd yn cael eu defnyddio i storio tanwydd a chemegau swmp (a ddefnyddiwyd pan oedd Wylfa'n cynhyrchu trydan) hefyd yn mynd yn ei flaen.

- Ymddengys fod proses y Cynllun Rheoli Gwastraff (PWMP) yn gweithio'n dda ar lefel prosiect unigol, neu gam prosiect. Mae nifer o brosiectau eraill – er enghraifft, defnydd o'r broses Adolygiad Awdurdod Gwastraff (WAR) – yn cael eu sefydlu yn Wylfa ar hyn o bryd.
- Ni fu dim digwyddiadau amgylcheddol o bwys yn Wylfa yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Nid ydym wedi cymryd dim camau gorfodi yn y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn ystyried dau ddiwyddiad yn ymwneud â rheoli gwastraff ymbelydrol soled.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

10 Diweddariad am Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox

Croesawyd Mair Jones i'r cyfarfod a diolchodd i Tudur Jones am ei gyflwyniad gan nodi ei fod diweddariad clir ar y cynnydd a wnaed hyd yma gan Raglen yr ADN.

Eglurodd MJ fod Magnox ar y rhestr fer ar gyfer tair o wobrau pwysig Academi Sgiliau Niwclear y Diwydiant Niwclear (NSAN) am ei waith yn 2020. Mae'r gyntaf am ymateb cymunedol neilltuol Magnox i Covid-19, a fydd yn cael ei dyfarnu'n dilyn pleidlais gyhoeddus. Ym mis Mawrth 2020, dyfarnodd Magnox £25,000 i bob un o'i safleoedd o gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox. Dangoswyd fideo byr i'r aelodau a oedd yn dangos y gwaith a wnaed ledled y DU i helpu cymunedau. Gofynnwyd i aelodau gofio pleidleisio erbyn 25 Mawrth 2021, a hefyd i annog grwpiau cymunedol eraill sydd wedi cael help drwy fynd i'r wefan ganlynol:

<https://www.nsan.co.uk/page/MagnoxCommunityAwardFinalist> Mae'r cwmni wedi cael ei enwebu am ei waith ED&I nodedig ac am recriwtio prentisiaid, mewn partneriaeth ag Energus a'r Coleg Niwclear Cenedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i MJ am gael gweld y fideo ysbrydoledig a diolchodd i staff Magnox am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn. Pwysodd ar yr aelodau i fwrw eu pleidlais, drwy'r wefan a nodwyd uchod, cyn 25 Mawrth 2021.

Aeth MJ ymlaen i gyflwyno diweddariad ar y Cynllun Economaidd-gymdeithasol ers y cyfarfod diwethaf.

- Mae Bwyd Da Môn yn fudiad newydd cyffrous sydd wedi deillio o gydweithrediad nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor ar Bopeth Ynys Môn, Coleg Llandrillo Menai a Banc Bwyd Môn. Yn ddiweddar cawsant £8,540 gan Magnox i brynu oergelloedd a rhewgelloedd diwydiannol i helpu i sefydlu'r fenter. Datblygwyd y ganolfan gymunedol yn Llangefni yn seiliedig ar siop nid er elw, sy'n aildosbarthu cynnyrch dros ben o nifer o archfarchnadoedd a chynhyrchwyr bwyd. Mae bwyd dros ben yn cael ei gasglu o gyflenwyr bwyd lleol a fyddai fel arall yn diweddu mewn safleoedd tirlenwi. Mae'r siop yn glwb bwyd i aelodau, sy'n costio £5 yr wythnos, ac mae'n agored i bawb.
- Diweddariad ar brosiectau aml-flwyddyn a ariennir - er bod y flwyddyn gyntaf wedi'i heffeithio'n ddrwg gan y pandemig Covid-19, llwyddwyd i gomisiynu sawl astudiaeth lwyddiannus. Cynhyrchwyd Achos Busnes ar gyfer cyfiawnhau Parth Busnes ar gyfer yr hen safle Octel ac Ystâd Ddiwydiannol Amlwch. Cafodd Cynllun Meistr Adfywio Porthladd Amlwch ei gynhyrchu sy'n amlinellu cyfleoedd ailddatblygu ar gyfer yr ardal ynghyd â Chynllun Gweithredu Cyrchfan, sy'n nodi atyniadau i ymwelwyr mewn cynllun

ystyrlon. Dyfarnwyd £50,000 hefyd i Gronfa Grant Gogledd Môn sydd wedi cefnogi 11 o sefydliadau, gan arwain at greu/sicrhau 39 o swyddi, 30 o gyfleoedd hyfforddi a 96 o gyfleoedd gwirfoddoli. Ymhlith y rhai a gefnogwyd mae Caru Amlwch, Gwinllan Llanbadrig a physgotwr ifanc sydd wedi cymryd busnes ei dad.

- Cafodd y Prosiect STEM Gogledd £201,000 gan Magnox dros gyfnod o bedair blynedd i weithio ym Môn, Gwynedd a Chonwy. Mae'r prosiect yn gwneud cynnydd da er bod y mentoriaid wedi gorfod troi at sesiynau rhithiol, gyda dros 300 o ddisgyblion wedi cofrestru â'r prosiect yn y chwe mis cyntaf cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud ym mis Mawrth, gyda 59% ohonynt yn fenywod. Mae bron i 600 o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn ymyriadau a drefnwyd.
- Mae CF Môn newydd gwblhau trydedd blwyddyn ac olaf eu prosiect 'Camau Nesaf' yn llwyddiannus, gyda chyfraniad o £300,000 gan Magnox. Mae'r arian hwn wedi galluogi gwasanaethau'r academi i barhau wrth iddynt symud i adeilad arall drwy gynnal rôl rheolwr cyflawni'r academi a dau gydlynedd hyfforddi llawn amser. Mae arian Magnox hefyd wedi helpu CF Môn i ddenu £480,000 arall i brynu ac adnewyddu eu prif swyddfa a'u canolfan.

Mynegodd y Cyng Derek Owen a'r Cyng Gordon Warren eu diolch ar ran eu cymunedau am y cymorth a'r gwaith caled a wnaed gan staff Magnox a gwirfoddolwyr i leddfu peth o faich Covid-19.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

11. Trafodwyd uchod

12 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni ofynnwyd dim cwestiynau.

13. Unrhyw Fater Arall

- Nododd y Cyng Dafydd Griffiths ei fod wedi cyflwyno cwestiynau ynglŷn ag Adroddiad Holliday i swyddogion drwy Jill Callander gyda chais am ymateb ysgrifenedig ond nad oedd wedi cael dim hyd yma. Dywedodd JJ nad oedd dyddiad cyhoeddi wedi'i gytuno eto ar gyfer Adroddiad Holliday ond mae'n bosibl y gall yn awr gael effeithio gan y pandemig. Fodd bynnag, bydd cofnodion Trysorlys EM o ymateb y llywodraeth i adroddiad y pwyllgor cyfrifon cyhoeddus yn cael ei ddsbarthu. **Cam Gweithredu:** JJ i ddsbarthu cofnodion Trysorlys EM a nodwyd uchod i'r grŵp a bod cwestiynau'r Cyng Dafydd Griffiths yn cael eu cynnwys yng nghofnodion y cyfarfod fel a ganlyn:

Nododd cofnodion y cyfarfod diwethaf y canlynol:

“O ran Adroddiad Holliday, nododd nad oedd cytundeb eto ynglŷn â'r dyddiad cyhoeddi gyda chyfyngiadau COVID 19 yn ffactor sydd wedi ychwanegu at yr oedi. Nododd, fodd bynnag, nad oedd gan yr oedi ddim oblygiadau i waith yr ADN.”

Mae adroddiad Tachwedd 2020 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nodi'r canlynol:

*“Rydym wedi holi'r Adran ynglŷn â chynnydd **ymchwiliad Holliday** i fethiant caffael a chontract Magnox a lansiwyd yn 2018, ac i **'Adolygiad Pwrpasol' yr Adran i rôl a llywodraethu'r ADN**. Mae'r Adran wedi ymrwymo i sicrhau bod cwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau hyn yn flaenoriaeth, a disgwylir y bydd **Adroddiad Holliday yn cael ei gyhoeddi'n fuan** a'r **Adolygiad Pwrpasol erbyn diwedd y flwyddyn**. Dywedwyd fod yr oedi yn achos ymchwiliad Holliday yn ganlyniad i nifer o heriau cyfreithiol a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad, ond bod yr Adran wedi derbyn holl gasgliadau adroddiad interim yr ymchwiliad ac y gweithredwyd erbyn hyn ar y camau blaengar pwysicaf a*

oedd yn cael eu hargymell yn yr adroddiad. Cadarnhaodd yr Adran hefyd y byddai'n cydymffurfio â'r argymhelliaid yn ein hadroddiad yn 2018 ar contract Magnox i ysgrifennu atom o fewn chwe mis ar ôl cyhoeddi ymchwiliad Holliday gyda chynnydd ar weithredu argymhellion yr ymchwiliad."

Rwyf yn sylweddoli bod cyhoeddi ymchwiliad Holliday a'r Adolygiad Pwrpasol yn nwylo'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nodi argymhelliaid penodol i weithredu arno gan yr ADN. A all yr ADN gynnig diweddariad?

"Ar ôl cyhoeddi adroddiad Holliday a'r adolygiad pwrpasol, dylai'r Adran a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ddatgan yn gyhoeddus yr hyn a ddysgwyd ganddynt a sut mae'r adroddiadau'n cael eu defnyddio i lywio datblygiad y modelau cyflawni a llywodraethu newydd."

Ar ôl darllen adroddiad Tachwedd 2020 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar **"ddatgomisiynu safleoedd Magnox a'r heriau strategol ehangach sy'n wynebu'r Adran a'r ADN"** rwyf yn credu y byddai diweddariad penodol ar y materion hyn gan yr ADN o ddiddordeb i aelodau GRhS.

Sut mae'r ADN yn bwriadu ymateb i'r argymhellion canlynol sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus? Rwyf wedi ad-drefnu'r argymhellion i roi blaenoriaeth i'r rhai sydd, yn fy marn i, o'r diddordeb a'r arwyddocâd mwyaf yn lleol.

Argymhellion:

"Dylai'r ADN fod yn fwy tryloyw ynglŷn â'i gynlluniau cyfredol a rhai'r dyfodol gyda'r cymunedau lleol yng nghyffiniau eu 17 safle i gryfhau atebolrwydd cyhoeddus ac i egluro effaith economaidd-gymdeithasol ei weithgarwch arfaethedig."

"Dylai'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ddatgan hefyd sut y bydd yn blaenoriaethu ei waith ar ei safleoedd er mwyn eu datgomisiynu yn y ffordd fwyaf diogel ac effeithlon."

"O fewn 6 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, dylai'r Adran a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear gyhoeddi cynllun manwl i ddangos sut maent yn bwriadu ateb y galw am sgiliau yn niwydiant niwclear y DU yn ystod y 5–10 mlynedd nesaf."

"Dylai'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ddatgan sut y bydd yn datblygu dull mwy eglur o adrodd yn gyhoeddus ar lefel yr ansicrwydd a'r risgiau ar ei safleoedd."

"Ar ôl ystyried yr adborth drwy ei ymgynghoriad cyhoeddus, dylai'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear fanteisio ar gyfleoedd i leihau'r amser a gymer i ddatgomisiynu ei safleoedd, a dylid edrych ar effaith lleihad o'r fath ar y proffil costau."

"Dylai'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a'r Adran sicrhau ei bod yn flaenoriaeth i wneud cynnydd ar eu cynlluniau i ganfod lleoliad ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol er mwyn lleihau'r costau storio dros dro yn Sellafield a mannau eraill, a dylai gadarnhau pa bryd maent yn credu y byddai'n rhesymol i ddisgwyl y bydd Cyfleuster o'r fath ar gael i storio gwastraff."

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 15:36.

Dyddiad y cyfarfod nesaf 09.09.21 ond mi all y trefniadau newid os gellir cynnal y cyfarfod wyneb yn wyneb yn ddiweddarach yn yr Hydref.